Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

# Adroddiad Blynyddol Addasrwydd i Ymarfer
## 2022-23

Y Pwyllgor **Ymchwilio**

Y Pwyllgor **Ymddygiad Proffesiynol**

Y Pwyllgor **Iechyd**

# Cynnwys


**1. Diweddariadau i'r Gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer yn 2022-2023** **3**
- Polisi Chwythu'r Chwiban 3
- Gweminarau Addasrwydd i Ymarfer 3
- Bwletin Cipolwg ar Addasrwydd i Ymarfer 3

**2. Cyfnodau'r Broses Addasrwydd i Ymarfer** **4**
- Sgrinwyr 4
- Y Pwyllgor Ymchwilio 5
- Y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol 6
- Y Pwyllgor Iechyd 6

**3. Ymchwiliadau a Gwrandawiadau 2022-2023** **8**
- Penderfyniadau'r Pwyllgor Ymchwilio 8
- Penderfyniadau'r Pwyllgor Iechyd 8
- Penderfyniadau'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol 8
- Gwrandawiadau Gorchmynion Atal Dros Dro Interim 9
- Pwy sy'n Codi Pryderon? 10
- Pa Mor Gyflym y Byddwn yn Prosesu Pryderon? 10

**4. Penderfyniadau'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol 2022-2023** **11**
- Gwrandawiadau Sylweddol 11
- Gwrandawiadau Adolygu 21


© Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol 2023

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nad yw mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Cyngor Osteopathig Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at: General Osteopathic Council, Osteopathy House, 176 Tower Bridge Road, London SE1 3LU.

Mae'r Adroddiad Blynyddol Addasrwydd i Ymarfer cyfredol ac adroddiadau'r pum mlynedd blaenorol ar gael ar ein gwefan: osteopathy.org.uk/ftp-annual-report

# 1. Diweddariadau i'r Gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer yn 2022-2023

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn gweithio'n barhaus i wella ei brosesau addasrwydd i ymarfer, ac eleni mae gennym nifer o ddiweddariadau. Nodir rhai o'r rhain isod.



## Polisi Chwythu'r Chwiban

Bu Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor ar waith ers 2014. O gofio hyd y cyfnod ers yr adolygiad blaenorol, ynghyd â'r newidiadau diweddar i'r broses adrodd, mae hyn wedi ysgogi adolygiad o'n Polisi ar Ymdrin â Phryderon ynghylch Chwythu'r Chwiban yn 2022, i sicrhau ei berthnasedd a'i hygyrchedd parhaus.

Gwnaethom gynnal adolygiad llenyddiaeth o ddeunyddiau a pholisïau rheoleiddwyr gofal iechyd eraill gan nodi rhai diwygiadau i'n dull gweithredu. Mae'r prif newidiadau i'r Polisi ar Ymdrin â Phryderon ynghylch Chwythu'r Chwiban yn cynnwys:

- Ailstrwythuro'r cynllun a'r llif i'w wneud yn ymarferol yn ogystal â gwella'r hygyrchedd i'r rheini sy'n dymuno codi pryder ynghylch chwythu'r chwiban (er enghraifft, nodi'r meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni i bryder fod yn ddatgeliad cymwys).
- Cael gwared ar y tablau sy'n nodi manylion sefydliadau eraill i gysylltu â nhw (bydd y rhain yn cael eu gosod ar y dudalen a neilltuwyd ar wefan y Cyngor, y mae hyblygrwydd i'w diweddaru'n rheolaidd) ond gan gadw'r adran ar ffynonellau rhagor o gyngor.
- Cynnwys adran gymorth ar gyfer chwythwyr chwiban.
- Cael gwared ar yr atodiad sy'n cynnwys y pwyntiau allweddol sy'n ymwneud â deddfwriaeth chwythu'r chwiban.
- Diweddariadau cyffredinol, er enghraifft, cynnwys y gofyniad i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol ar ddatgeliadau chwythu'r chwiban.

## Gweminarau Addasrwydd i Ymarfer

Ar 4 Hydref 2022, gwnaethom gynnal gweminar addasrwydd i ymarfer gyda'r Cyngor Ciropracteg Cyffredinol. Ein bwriad ar gyfer y gweminar ar y cyd oedd agor y drafodaeth ynghylch gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer gyda'r osteopathiaid a'r ceiropractyddion ac annog cydweithio a dysgu rhwng proffesiynau. Gwnaethom ganolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd mewn gwrandawiad, gan gynnwys prosesau a threfniadau ar gyfer gwrandawiadau o bell a wyneb yn wyneb. Gwnaethom gynyddu ein hymgysylltiad drwy annog y cyfranogwyr i ofyn cwestiynau. Gwnaethom dderbyn cwestiynau ar bynciau fel rhagfarn anfwriadol gan y panel, gwrandawiadau preifat, pa mor hir yw'r broses Addasrwydd i Ymarfer ac a all ymarferydd barhau i weithio tra bo ymchwiliad yn mynd rhagddo.

## Bwletin Cipolwg ar Addasrwydd i Ymarfer

Ar ddechrau'r cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ei gwmpasu, ar 25 Ebrill 2022, gwnaethom gyhoeddi bwletin Cipolwg ar Addasrwydd i Ymarfer a ddyluniwyd i helpu i egluro ein prosesau addasrwydd i ymarfer. Yn y rhifyn hwn, aethom ati i amlygu'r Gwasanaeth Cymorth Annibynnol sydd ar gael i bob osteopath sy'n mynd drwy ymchwiliad addasrwydd i ymarfer. Gwnaethom hefyd ymateb i rai o'r cwestiynau a godwyd yn fynych yn ein gweminar Addasrwydd i Ymarfer cyntaf a gynhaliwyd ym mis Medi 2021, a'r adborth a gawsom.

# 2. Cyfnodau'r Broses Addasrwydd i Ymarfer




Mae dyletswydd ar y Cyngor Osteopathig Cyffredinol o dan Ddeddf Osteopathiaid 1993 i ymchwilio i bryderon ynghylch osteopathiaid.

Rydym yn derbyn pryderon ynghylch osteopathiaid o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys:

- cleifion
- aelodau'r cyhoedd
- cyflogwyr
- osteopathiaid eraill
- atgyfeiriadau gan reoleiddwyr eraill

Pryderon cleifion yw prif ffynhonnell cwynion ynghylch osteopathiaid o hyd. Drwy ein prosesau addasrwydd i ymarfer, mae gennym ddyletswydd i nodi a yw pryder ynghylch osteopath yn fater dilys y mae angen ei ymchwilio. Dyluniwyd y gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer i ddiogelu'r cyhoedd ac ni fwriedir iddynt weithredu fel proses datrys cwynion gyffredinol.

Mae gan y Cyngor 3 pwyllgor statudol:

- Y Pwyllgor Ymchwilio, sy'n cynnal y gwaith craffu cychwynnol ar y cwynion ynghylch osteopathiaid, ac sy'n penderfynu a oes gan osteopath achos i'w ateb.
- Y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol, sy'n gwrando ar achosion sy'n cynnwys euogfarnau troseddol neu honiadau ynghylch ymddygiad neu gymhwysedd osteopath. Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu bod sail i'r honiadau, mae'n gosod cosb sy'n briodol a chymesur ar yr osteopath.
- Y Pwyllgor Iechyd, sy'n ystyried achosion lle yr honnir bod yr osteopath yn dioddef iechyd meddwl neu gorfforol gwael. Bydd camau priodol yn cael eu cymryd er budd y cyhoedd a'r osteopath.

Bydd asesydd cyfreithiol yn mynychu pob cyfarfod neu wrandawiad gan bwyllgor - sef unigolyn â chymhwyster cyfreithiol sy'n rhoi cyngor i'r pwyllgor ynghylch materion cyfreithiol a gweithdrefnol.

Gall unrhyw rai o'n pwyllgorau addasrwydd i ymarfer osod gorchymyn atal dros dro interim ar osteopath, os ydynt yn teimlo ei fod yn angenrheidiol i ddiogelu'r cyhoedd mewn achos sy'n cynnwys honiadau difrifol.

Mae gorchymyn atal dros dro interim yn atal cofrestriad yr osteopath nes bydd yr ymchwiliad wedi'i gynnal a chanlyniad y gwrandawiad wedi'i gyhoeddi.

## Sgrinwyr

Mae'r Adran Reoleiddio'n adolygu'r holl bryderon a ddaw i law ac yn cynnal asesiad risg cychwynnol i sicrhau nad oes perygl uniongyrchol i ddiogelwch y cyhoedd.

Byddwn yn casglu cymaint o wybodaeth â phosibl ar y cam cychwynnol hwn cyn atgyfeirio'r pryder i 'Sgriniwr' (aelod sy'n osteopath o Bwyllgor Ymchwilio'r Cyngor). Fel rhan o'n gwaith o gasglu gwybodaeth, rydym fel arfer yn ceisio gwybodaeth neu eglurhad ychwanegol gan yr unigolyn sy'n codi'r pryder. Os nad yw'r unigolyn sy'n codi'r pryder yn rhoi rhagor o wybodaeth i ni o fewn 42 diwrnod ar ôl i'r cais ddod i law, yna bydd y pryder yn cael ei atgyfeirio i Sgriniwr gydag argymhelliad i'w gau ar y sail bod diffyg deunydd ategol perthnasol a chredadwy.

Os bydd y wybodaeth yn dod i law, bydd yr achos yn cael ei drosglwyddo i Sgriniwr a fydd yn adolygu'r pryder i benderfynu a oes posibilrwydd ei fod yn honiad o dan y Ddeddf Osteopathiaid. Wrth wneud penderfyniad, gall y Sgriniwr gyfeirio at y ddogfen Meini Prawf Trothwy ar gyfer Ymddygiad Proffesiynol Annerbyniol i'w gynorthwyo i benderfynu a yw gweithgaredd y cafwyd cwyn yn ei gylch yn enghraifft o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, sef 'ymddygiad nad yw'n cyrraedd y safon sy'n ddisgwyliedig gan osteopath'.

Os yw Sgriniwr yn penderfynu nad oes gan y Cyngor rym i ymchwilio'r pryder, atgyfeirir y mater i Sgriniwr lleyg i adolygu'r dogfennau a phenderfyniad y Sgriniwr. Os yw'r naill Sgriniwr a'r llall yn cytuno, yna gellir cau'r mater. Os ydynt yn anghytuno, yna atgyfeirir y mater i'r Pwyllgor Ymchwilio.

## Y Pwyllgor Ymchwilio

Mae'r Pwyllgor Ymchwilio, sy'n cynnwys pum aelod, yn cwrdd yn breifat i ystyried yr achosion a atgyfeiriwyd iddo gan Sgriniwr. Bydd y Pwyllgor yn ystyried a oes achos i'w ateb yn erbyn yr osteopath dan sylw ac yn ystyried y meini prawf trothwy wrth wneud ei benderfyniad.

Os yw'r Pwyllgor Ymchwil yn penderfynu nad oes achos i'w ateb, bydd yr achos yn cael ei gau.

Gall y Pwyllgor benderfynu nad oes ganddo ddigon o wybodaeth i ystyried y mater yn deg a bydd yn gohirio'r ystyriaeth er mwyn cael gafael ar ragor o wybodaeth.

Os bydd y Pwyllgor Ymchwilio'n penderfynu bod achos i'w ateb, bydd gwrandawiad yn cael ei drefnu gerbron Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol y Cyngor neu, os yw'r mater yn ymwneud ag iechyd osteopath, bydd gwrandawiad gerbron y Pwyllgor Iechyd yn cael ei drefnu.

## Y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol

Mae'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yn cynnwys tri aelod ac mae'n rhaid i'r Cadeirydd fod yn aelod lleyg. Bydd asesydd cyfreithiol yn bresennol hefyd i gynorthwyo'r Pwyllgor ar unrhyw faterion cyfreithiol a allai godi yn ystod y gwrandawiad.

Cynhelir gwrandawiadau yn gyhoeddus fel arfer a gall aelodau'r cyhoedd eu mynychu. Fodd bynnag, gan ddibynnu ar natur yr achos, mae'n bosibl y bydd achosion lle y bydd yn rhaid cynnal rhan o'r gwrandawiad neu'r gwrandawiad cyfan yn breifat, er enghraifft, lle y bo'r gwrandawiad yn ymwneud â materion sy'n gysylltiedig ag iechyd neu fywyd preifat yr osteopath.

Wrth ystyried achos, mae tri cham i broses gwneud penderfyniad y Pwyllgor:

1. **Canfod ffeithiau**

   Bydd y Pwyllgor yn ystyried a yw'n credu bod y ffeithiau a honnir yn erbyn yr osteopath wedi'u profi. Mae'n bosibl y bydd yr osteopath yn cadarnhau rhai ffeithiau ac y bydd anghytundeb ynghylch ffeithiau eraill. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y ffeithiau y ceir anghytundeb yn eu cylch a bydd yn penderfynu a yw'n fwy tebygol na pheidio eu bod yn wir. Dyma a elwir yn 'pwysau tebygolrwydd'.

Os yw'r Pwyllgor yn canfod na ellir profi unrhyw rai o'r ffeithiau, bydd yr achos yn dod i ben. Os bydd yn canfod bod yr holl ffeithiau neu rai ohonynt wedi'u profi, bydd y gwrandawiad yn symud ymlaen i'r cam nesaf.

**2. Canfyddiad ynghylch honiad**

Unwaith y bydd y canfyddiadau o'r ffeithiau wedi'u cyhoeddi, bydd y naill barti a'r llall (cyflwynydd achos y Cyngor a'r osteopath) yn cael eu gwahodd i wneud cyflwyniadau ar ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol neu a yw euogfarn droseddol yn berthnasol i ymarfer osteopathi. Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor farnu yn ei gylch ac nid yw'n fater o brawf.

Bydd y Pwyllgor yn gwrando ar y cyflwyniadau ac yn eu hystyried, a bydd yn cyfarfod yn breifat i ystyried ei ganfyddiadau. Pan fydd penderfyniad wedi'i wneud, bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi penderfyniad y Pwyllgor.

**3. Cosbau**

Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu bod y ffeithiau yn datgelu ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol, neu fod euogfarn droseddol yn berthnasol i ymarfer osteopathi, yna bydd yn clywed unrhyw gyflwyniadau ychwanegol gan y naill barti a'r llall ynghylch yr honiadau. Bydd hefyd yn ystyried y cyflwyniadau a wnaed gan y naill barti a'r llall ynghylch y gost i'w phennu.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth yn breifat ac yn penderfynu pa gosb i'w gosod. Unwaith y bydd wedi gwneud penderfyniad, bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi'r gosb.

Os bydd y Pwyllgor yn canfod bod sail i honiad yn erbyn osteopath, rhaid iddo ddewis un o'r pedair cosb a ganlyn i'w gosod ar yr osteopath:

- rhybudd
- gosod amodau ar ymarfer yr osteopath
- tynnu'r osteopath oddi ar y Gofrestr dros dro
- tynnu'r osteopath oddi ar y Gofrestr


## Y Pwyllgor Iechyd

Gall y Pwyllgor Iechyd ond gosod amodau ar ymarfer yr osteopath neu ei atal dros dro mewn achosion lle y bydd yn canfod bod addasrwydd i ymarfer yr osteopath wedi'i amharu'n ddifrifol oherwydd ei gyflwr corfforol neu feddyliol.


Bydd gwrandawiadau'r Pwyllgor yn cael eu cynnal yn breifat fel arfer a byddant yn cynnwys tri aelod:

- cadeirydd lleyg
- osteopath
- aelod lleyg

Bydd asesydd cyfreithiol ac asesydd meddygol yn bresennol hefyd i gynorthwyo'r Pwyllgor gydag unrhyw faterion cyfreithiol a meddygol a allai godi yn ystod y gwrandawiad.




**Enghraifft o drefniant ystafell gwrandawiad**


Casglu gwybodaeth
Sgriniwr yn ystyried y papurau
Meini prawf y trothwy heb eu bodloni: yr achos yn cael ei gau
Atgyfeirio i'r Pwyllgor Ymchwilio
Y Pwyllgor Ymchwilio
Dim achos i'w ateb
Dim achos i'w ateb – cyngor
Atgyfeirio i'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol neu'r Pwyllgor Iechyd
Y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol
Panel y Pwyllgor Iechyd
Dim sail i'r honiad
Rhybudd
Amodau ymarfer
Atal dros dro
Tynnu oddi ar y gofrestr
Dim sail i'r honiad
Amodau ymarfer
Atal dros dro

# 3. Ymchwiliadau a Gwrandawiadau 2022-2023

## Penderfyniadau'r Pwyllgor Ymchwilio

Yn ystod y 12 mis rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, cyfarfu Pwyllgor Ymchwilio'r Cyngor 12 gwaith ac ystyriodd 32 achos. Daeth i'r casgliad y dylai'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol glywed 16 o'r achosion hynny. Mewn 13 achos, canfu nad oedd achos i'w ateb. Mewn 3 achos, canfu nad oedd achos i'w ateb ond cyflwynodd gyngor ac ni chafodd unrhyw achosion eu gohirio.


Mewn 3 achos, roedd y gŵyn yn ddigon difrifol i'r Pwyllgor Ymchwilio osod gorchymyn atal dros dro interim cyn cynnal y gwrandawiad. Mewn 2 achos, ni wnaeth y Pwyllgor Ymchwilio osod gorchymyn atal dros dro interim ond derbyniodd ymgymeriadau gan yr osteopath.

## Penderfyniadau'r Pwyllgor Iechyd

Ni chlywodd y Pwyllgor Iechyd unrhyw achosion sylweddol rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023. Fodd bynnag, bu dau wrandawiad adolygu lle y penderfynodd y Pwyllgor y dylid estyn y cyfnod atal dros dro am 12 mis arall.

## Penderfyniadau'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol

Rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, gwnaeth y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol benderfyniad terfynol mewn 17 achos, a oedd oll yn ymwneud ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol. O'r achosion hyn, roedd dau yn ymwneud â'r un osteopath (h.y. cawsant eu clywed ar y cyd). Tynnodd y Pwyllgor 2 osteopath oddi ar y Gofrestr a chafodd 2 osteopath eu hatal rhag ymarfer dros dro. Gosodwyd amodau ymarfer ar 1 osteopath a chafodd 6 osteopath eu rhybuddio gan y Pwyllgor. Ni wnaed unrhyw ganfyddiadau yn erbyn yr osteopathiaid dan sylw mewn 2 achos a chafodd yr achosion eu cau heb gymryd camau pellach.




## Gwrandawiadau Gorchmynion Atal Dros Dro Interim

Gall y Pwyllgor Ymchwilio, y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol a'r Pwyllgor Iechyd osod gorchymyn atal dros dro ar gofrestrydd am gyfnod interim os oes perygl gwirioneddol i aelodau'r cyhoedd. Mae'r tabl isod yn dangos faint o wrandawiadau gorchmynion atal dros dro interim a gynhaliwyd, a nifer y gorchmynion a osodwyd, rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023.

| **Pwyllgor** | **Nifer y Gorchmynion Atal Dros Dro Interim y gwnaed cais amdanynt** | **Nifer y Gorchmynion Atal Dros Dro Interim a osodwyd** | **Nifer yr ymgymeriadau** |
|---|---|---|---|
| Gorchmynion Atal Dros Dro Interim y gwnaeth y Pwyllgor Ymchwilio gais amdanynt | 9 | 3 | 2 |
| Gorchmynion Atal Dros Dro Interim y gwnaeth y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol gais amdanynt | 3 | 3 | 0 |
| Gorchmynion Atal Dros Dro Interim y gwnaeth y Pwyllgor Iechyd gais amdanynt | 0 | 0 | 0 |

## Pwy sy'n Codi Pryderon?

Daw pryderon i law'r Cyngor o amrywiaeth o ffynonellau. Daw'r nifer fwyaf o bryderon gan gleifion neu'r rheini sydd wedi ymgysylltu â gwasanaethau'r osteopath. Daw pryderon i law'r Cyngor hefyd gan gydweithwyr a chyflogwyr. Mewn rhai achosion, daw pryderon i sylw'r Cyngor heb fod achwynydd adnabyddadwy. O dan yr amgylchiadau hyn, Cofrestrydd y Cyngor yw'r achwynydd.




## Pa Mor Gyflym y Byddwn yn Prosesu Pryderon?

Mae'r tabl isod yn dangos yr amser a gymerwyd i achosion gael eu clywed, rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023.

| Pwyllgor | Yr amser canolrif rhwng derbyn cwyn a gwneud penderfyniad |
|---|---|
| Y Pwyllgor Ymchwilio | 37 wythnos (targed = 26 wythnos) |
| Y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol | 58 wythnos (targed = 52 wythnos) |

# 4. Penderfyniadau'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol 2022-2023

Mae'r tabl isod yn cwmpasu'r gwrandawiadau sylweddol a gwblhawyd gan y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Cynhyrchir yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Osteopathiaid 1993, Adrannau 22(13) a (14), sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y Pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad sy'n nodi enwau'r osteopathiaid hynny y mae wedi ymchwilio i honiadau yn eu cylch ac wedi canfod bod sail i'r honiadau hynny. Mae materion yn ymwneud ag addasrwydd i ymarfer osteopathiaid yn rhan hanfodol o ddyletswydd y Bwrdd i reoleiddio'r proffesiwn ac felly ddiogelu'r cyhoedd ac enw da'r proffesiwn. Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn darparu adnodd gwerthfawr i osteopathiaid ynghylch safonau ymddygiad uchel a'r hyfedredd sydd ei angen i gynnal cofrestriad fel osteopath.

## Gwrandawiadau Sylweddol

| Osteopath | Dyddiad y penderfyniad | Ffynhonnell y pryder | Canlyniad | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| Richard Skudder (5015) | 24 Mai 2022 | Claf | Rhybudd | Yn ystod apwyntiadau triniaeth gyda Chlaf A, dywedodd Mr Skudder bethau amhriodol iddi, gan iddo:<br>• Ar un achlysur, wneud sylw am draed Claf A wrth afael ynddynt â'i ddwylo, gan ddefnyddio geiriau tebyg i 'www, mor ciwt'.<br>• Yn ystod haf 2019 neu oddeutu'r amser hwnnw, ddweud geiriau tebyg i 'roedd hwnna i fi, nid i ti' ar ôl iddo ei chofleidio.<br><br>Ar 12 Chwefror 2021 neu oddeutu'r dyddiad hwnnw:<br>• Dywedodd Mr Skudder wrth Glaf A, gan ei fod wedi'i frechu, y byddai'n ddiogel iddi ddod i mewn i'w gartref.<br>• Dywedodd wrth Glaf A eiriau tebyg i 'Rwy'n mynd i goginio swper i ti'.<br><br>Yn ystod apwyntiadau triniaeth gyda Chlaf A, gwnaeth Mr Skudder gysylltiad corfforol dianghenraid â Chlaf A gan iddo:<br>• Gofleidio Claf A ar o leiaf un achlysur.<br>• Ail-gau bra Claf A heb ofyn iddi a allai wneud hynny.<br><br>(Parhau ar y dudalen nesaf) |

| Osteopath | Dyddiad y penderfyniad | Ffynhonnell y pryder | Canlyniad | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Yn ystod mis Chwefror 2021, y tu allan i'r lleoliad clinigol, gwnaeth Mr Skudder ymddwyn yn amhriodol gan iddo:<br><br>• Anfon neges destun at Glaf A i wneud trefniadau iddynt fynd am dro gyda'i gilydd.<br>• Gwahodd Claf A i fynd gydag ef i weld eiddo.<br>• Gofyn i Glaf A am ei pherthynas ddiweddar a ddaeth i ben.<br>• Gofyn i Glaf A ar fwy nag un achlysur a oedd mewn perthynas ramantaidd â'i hyfforddwr personol.<br>• Gwahodd Claf A i fynd am dro arall gydag ef ar ddiwrnod arall.<br>• Cyfeirio at gael swper gyda Chlaf A.<br>• Rhoi gwybodaeth fanwl i Glaf A am berthynas rywiol a gafodd â chlaf blaenorol.<br>• Gofyn i Glaf A a allai ystyried mai dêt oedd mynd am dro gyda'i gilydd<br>• Chwythu cusan at Glaf A.<br><br>Anfonodd Mr Skudder negeseuon amhriodol at Glaf A gan iddo anfon neges destun ati ar 21 Chwefror 2021 am 11.16yh a oedd yn dweud:<br><br>'"Dy dagu nes dy fod ti'n llewygu ac yna ffwcio dy wyneb di." Mae'n uniongyrchol iawn yn tydi. Gobeithio dy fod wedi cael Dydd Sul da x.'<br><br>Anfonodd Mr Skudder y neges destun hon ati er ei fod yn gwybod bod darllen neges debyg ar y cyfryngau cymdeithasol yn flaenorol wedi peri trallod i Glaf A.<br><br>Roedd ymddygiad Mr Skudder, fel y'i nodir uchod, yn enghraifft o gam-drin ei sefyllfa broffesiynol ac roedd yn enghraifft o groesi ffiniau proffesiynol. |

| Osteopath | Dyddiad y penderfyniad | Ffynhonnell y pryder | Canlyniad | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| Caspar Hull (608) | 5 Awst 2022 | Dau gydweithiwr i'r osteopath<br><br>Dau glaf | Atal dros dro | Rhoddodd Mr Hull driniaeth i Glaf C, yn ystod 2006 neu oddeutu'r amser hwnnw (Apwyntiad 1).<br><br>Yn ystod Apwyntiad 1, gwnaeth Mr Hull sylwadau i Glaf C fel a ganlyn:<br>• 'O sori, fy merch 10 oed sydd yno. Bydd hi i fyny yno yn mastyrbio oherwydd mae ganddi anghenion arbennig.'<br>• 'Dyna'r cwbl mae hi'n ei wneud.'<br><br>Rhoddodd Mr Hull driniaeth i Glaf D oddeutu 10 gwaith rhwng neu o gwmpas 8 Mehefin 2016 a 9 Rhagfyr 2019, gan gynnwys 14 Ionawr 2019 (Apwyntiad 9) a 9 Rhagfyr 2019 (Apwyntiad 10).<br><br>Yn ystod apwyntiadau 9 a/neu 10 gyda Chlaf D, gwnaeth Mr Hull y sylwadau a ganlyn i Glaf D:<br>• 'Ers gwahanu oddi wrth fy ngwraig, dwi wedi bod ar wefan chwilio am gariad.'<br>• 'Mae menywod wedi dweud gan fod gen i fy musnes fy hun, bod yn rhaid bod gen i ddigonedd o arian. Ond gan fy mod i'n gwahanu oddi wrth fy ngwraig, dydy hynna ddim yn wir.'<br>• 'Dwi wedi cael digon o fenywod ar y wefan chwilio am gariad yn anfon lluniau o'u bronnau ata'i.'<br><br>Rhoddodd Mr Hull driniaeth i Glaf B (Triniaeth 1) ar 5 Gorffennaf 2021.<br><br>Yn ystod y driniaeth hon, dynwaredodd Mr Hull Donald Trump, a drwy wneud hynny:<br>• siaradodd am Donald Trump 'ddim yn cael y codiad' neu eiriau tebyg<br>• defnyddiodd y gair 'pwsi'<br>• gwnaeth sylwadau amhriodol a/neu sylwadau hiliol i Glaf B gan gyfeirio at ddwy genedl o Ddwyrain Ewrop, sef 'am eu bod nhw wedi'u gadael nhw i gyd i mewn', neu eiriau tebyg i hynny.<br><br>(Parhau ar y dudalen nesaf) |

| Osteopath | Dyddiad y penderfyniad | Ffynhonnell y pryder | Canlyniad | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Rhoddodd Mr Hull driniaeth i Glaf A ar 7 Gorffennaf 2021 (Triniaeth 2) a 14 Gorffennaf 2021 (Triniaeth 3).<br><br>Yn ystod Triniaeth 2, gwnaeth Mr Hull:<br><br>• Rannu gwybodaeth bersonol am ei ferch gyda Chlaf A.<br>• Dweud wrth Glaf A, tra ei fod yn astudio yn y brifysgol, bod cyd-fyfyriwr (Unigolyn C) wedi dweud wrtho ei bod mor sensitif o gwmpas ei chluniau i'r pwynt y byddai'n cael orgasm pe bai'n cael ei chyffwrdd yn y mannau hynny, neu eiriau tebyg i hynny.<br>• Cadarnhau bod Unigolyn C wedi rhannu'r uchod ag ef yn breifat ond ei fod wedi rhannu'r wybodaeth wedi hynny â'r holl ddosbarth yn y brifysgol.<br><br>Yn ystod Triniaeth 3, gwnaeth Mr Hull:<br><br>• Ddweud wrth Glaf A bod bachgen ifanc (Plentyn D) wedi'i ddal yn cael rhyw â mam Plentyn D, a'i fod wedi gofyn 'faint o weithiau wnes di roi dy bidyn yn mami?' neu eiriau tebyg i hynny.<br>• Dweud wrth Glaf A ei fod, fel plentyn, wedi chwarae gêm â phlant eraill lle y byddai ef a'r plant yn eistedd ar y llawr gyda'u coesau ar led, ac y byddent yn taflu pêl at y man rhwng eu coesau a'i fod wedi taflu pêl at y man rhwng coesau merch ifanc (Plentyn E).<br><br>Roedd ymddygiad Mr Hull yn enghraifft o groesi ffiniau proffesiynol a rhywiol. |

| Osteopath | Dyddiad y penderfyniad | Ffynhonnell y pryder | Canlyniad | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| Steven Davies (302) | 13 Medi 2022 | Claf | Rhybudd | Rhwng 6 Gorffennaf 2021 a 21 Hydref 2021, dangosodd Mr Davies a/neu cyfeiriodd Glaf D a/neu Glaf E i gyfrif/cyfrifon a/neu wefan/gwefannau Claf arall (Claf A), gan ddatgelu mai Claf A oedd wedi cwyno mewn achos a wnaed yn erbyn Mr Davies. Roedd ymddygiad Mr Davies yn amhriodol ac yn torri cyfrinachedd. |
| Georgina Jones (4431) | 15 Medi 2022 | Cofrestrydd | Rhybudd | Tynnwyd Ms Jones oddi ar gofrestr y Cyngor ar 8 Rhagfyr 2020 ar ôl iddi fethu ag adnewyddu ei chofrestriad. Dilëwyd yswiriant indemniad proffesiynol Ms Jones hefyd ar yr un diwrnod.<br><br>Bu Ms Jones yn ymarfer fel osteopath rhwng 9 Rhagfyr 2020 a 30 Mehefin 2021 heb iddi fod wedi'i chofrestru â'r Cyngor a heb yswiriant indemniad proffesiynol. Drwy barhau i ymarfer osteopathi heb gofrestru, cyflwynodd Ms Jones ei hunan i'r cyhoedd fel osteopath cofrestredig.<br><br>Gwyddai Ms Jones, drwy gyflwyno ei hunan i'r cyhoedd fel osteopath, bod angen iddi feddu ar yswiriant indemniad proffesiynol. Ond rhoddodd driniaeth i gleifion er gwaethaf y ffaith nad oedd wedi'i chofrestru â'r Cyngor ac nad oedd ganddi yswiriant indemniad proffesiynol priodol, ac felly roedd yn gweithredu er anfantais bosibl i gleifion o'r fath ac yn eu rhoi mewn perygl.<br><br>Roedd ymddygiad Ms Jones yn gamarweiniol ac yn anonest. |

| Osteopath | Dyddiad y penderfyniad | Ffynhonnell y pryder | Canlyniad | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| Kiron Patel (6444) | 28 Medi 2022 | Claf | Rhybudd | Mynychodd Claf A apwyntiadau gyda Mr Patel ar 25 Chwefror 2021 (Apwyntiad 1) a 4 Mawrth 2021 (Apwyntiad 4) neu oddeutu'r dyddiadau hynny.<br><br>Yn ystod yr apwyntiadau hyn, ymdriniodd Mr Patel â phen-ôl Claf A â'i benelin gan ddefnyddio gormod o bwysau ac ni ofynnodd am ganiatâd Claf A i wneud hynny.<br><br>Ni wnaeth Mr Patel roi'r gorau i'r driniaeth er gwaethaf y ffaith bod Claf A wedi dweud ei bod mewn poen wrth gael y driniaeth.<br><br>Ni wnaeth Mr Patel gyfathrebu â Chlaf A mewn perthynas â'r boen yr oedd yn ei dioddef yn ystod y driniaeth.<br><br>Roedd Mr Patel yn ymwybodol bod Claf A wedi cael diagnosis o dendonitis/bwrsitis trocantol yn y glun ond methodd Mr Patel ag ystyried diagnosis Claf A wrth lunio cynllun triniaeth ac wrth roi triniaeth.<br><br>Ni wnaeth Mr Patel gynnal a/neu gofnodi archwiliad o gluniau Claf A yn ddigonol cyn parhau â'r driniaeth i gyhyrau'r cluniau.<br><br>Roedd ymddygiad Mr Patel yn amhriodol ac nid oedd er budd pennaf Claf A. |
| Roy Roberts (6571) | 14 Hydref 2022 | Hunan-atgyfeiriad | Rhybudd | Roedd Mr Roberts wedi'i gofrestru fel osteopath ac yn ymarfer rhwng 1 Medi 2015 a 31 Awst 2016 a/neu 1 Medi 2017 a 10 Mai 2021 (gan gynnwys y naill ddyddiad a'r llall) heb yswiriant indemniad proffesiynol.<br><br>Methodd Mr Roberts â hysbysu'r Cyngor ar unwaith bod ei yswiriant wedi dod i ben.<br><br>(Parhau ar y dudalen nesaf) |

| Osteopath | Dyddiad y penderfyniad | Ffynhonnell y pryder | Canlyniad | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Gwyddai Mr Roberts, gan ei fod yn cyflwyno ei hunan i'r cyhoedd fel osteopath, ei bod yn ofynnol iddo feddu ar yswiriant indemniad proffesiynol.<br><br>Roedd Mr Roberts yn rhoi triniaeth i gleifion er gwaethaf y ffaith nad oedd yn meddu ar yswiriant indemniad proffesiynol priodol, ac felly roedd yn gweithredu er anfantais bosibl i gleifion o'r fath ac yn eu peryglu.<br><br>Roedd ymddygiad Mr Roberts yn gamarweiniol. |
| Oliver Eaton (8557) (a) a (b) | 28 Tachwedd 2022 | Claf | Tynnu oddi ar y Gofrestr | Roedd Mr Eaton wedi'i atal dros dro am gyfnod o 3 mis gan y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol rhwng mis Chwefror a 5 Mai 2019.<br><br>Yn ystod y cyfnod hwn, rhoddodd Mr Eaton driniaeth i Glaf A ar sawl achlysur rhwng 6 Chwefror a 10 Ebrill 2019.<br><br>Ni wnaeth Mr Eaton hysbysu Claf A:<br>• Ei fod wedi'i atal dros dro rhag ymarfer fel osteopath.<br>• Nad oedd yn ymarfer fel osteopath.<br><br>Fel y nodir uchod, roedd ymddygiad Mr Eaton yn gamarweiniol, ac arddangosodd ddiffyg uniondeb ac anonestrwydd. |
| Chen Chen (9744) | 9 Rhagfyr 2022 | Claf | Amodau Ymarfer | Ar 30 Gorffennaf 2020, mynychodd Claf A apwyntiad osteopathi gyda Mr Chen.<br><br>Yn ystod yr apwyntiad, rhoddodd Mr Chen driniaeth ormodol a grymus i gefn Claf A. Gwnaeth Mr Chen drin Claf A drwy:<br>• drin yr asgwrn cefn<br>• rhoi triniaeth aciwbigo a oedd yn cynnwys triniaeth drydanol<br>• defnyddio bwrdd wyneb i waered<br><br>(Parhau ar y dudalen nesaf) |

| Osteopath | Dyddiad y penderfyniad | Ffynhonnell y pryder | Canlyniad | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Methodd Mr Chen â chynnwys manylion pob triniaeth a ddefnyddiwyd yn nodiadau clinigol Claf A.<br><br>Ar ôl cael y driniaeth uchod, yn ystod yr un diwrnod, profodd Claf A symptomau a oedd yn cynnwys:<br>• diffyg teimlad ar ochr fewnol ei gluniau<br>• cyhyrau ei goesau'n gwingo<br>• diffyg teimlad o ganol ei gorff i lawr<br>• anhawster wrth droethi<br><br>Cafodd Claf A ddiagnosis o 'Syndrom Cauda Equina' a chafodd lawdriniaeth laminectomi a discectomi.<br><br>Roedd ymddygiad Mr Chen yn amhriodol ac nid oedd ganddo gyfiawnhad clinigol. |
| Jessica Turner (7608) | 16 Rhagfyr 2022 | Cofrestrydd | Atal dros dro | Roedd Ms Turner wedi'i chofrestru ac yn ymarfer fel osteopath rhwng 1 Medi 2013 a 3 Awst 2014 a rhwng 1 Medi 2015 a 29 Chwefror 2020 heb yswiriant indemniad proffesiynol.<br><br>Roedd gan Ms Turner statws cofrestredig fel osteopath nad oedd yn ymarfer a gweithiodd fel osteopath yn ystod yr holl gyfnod, neu ran ohono, rhwng 1 Mawrth 2020 a 18 Awst 2021, heb yswiriant indemniad proffesiynol. Methodd Ms Turner â hysbysu'r Cyngor ar unwaith bod ei hyswiriant wedi dod i ben.<br><br>Yn ystod yr holl gyfnod, neu ran ohono, rhwng 1 Medi 2013 a 3 Awst 2014 a/neu 1 Medi 2015 a 29 Chwefror 2020 a/neu 1 Mawrth 2020 a 18 Awst 2021, rhoddodd Ms Turner driniaeth i gleifion er gwaethaf y ffaith nad oedd ganddi yswiriant indemniad proffesiynol priodol, ac felly gweithredodd er anfantais bosibl i gleifion o'r fath ac fe'u peryglodd.<br><br>Roedd ymddygiad Ms Turner yn gamarweiniol a dangosodd ddiffyg gonestrwydd. |

| Osteopath | Dyddiad y penderfyniad | Ffynhonnell y pryder | Canlyniad | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| Steven Hadlum-Emburey (7624) | 10 Ionawr 2023 | Cwmni Yswiriant | Rhybudd | Roedd Mr Hadlum-Emburey wedi'i gofrestru fel osteopath rhwng 1 Rhagfyr a 3 Rhagfyr 2020, gan gynnwys y naill ddyddiad a'r llall ('y Cyfnod Perthnasol'), heb yswiriant indemniad proffesiynol.<br><br>Methodd Mr Hadlum-Emburey â hysbysu'r Cyngor ar unwaith bod ei yswiriant wedi dod i ben.<br><br>Roedd yn gwybod, gan ei fod yn cyflwyno ei hun i'r cyhoedd fel osteopath, ei bod yn ofynnol iddo gael yswiriant indemniad proffesiynol.<br><br>Roedd ymddygiad Mr Hadlum-Emburey yn gamarweiniol a dangosodd ddiffyg gonestrwydd. |
| Stephen Blinman (7998) | 31 Mawrth 2023 | Claf | Tynnu oddi ar y Gofrestr | Rhoddodd Mr Blinman driniaeth i Glaf A ar sawl achlysur rhwng mis Rhagfyr 2021 a thua mis Mawrth 2022.<br><br>Magodd berthynas amhriodol â Chlaf A a cheisiodd berthynas rywiol amhriodol â Chlaf A.<br><br>Cafodd Mr Blinman berthynas rywiol â Chlaf A a chysylltodd â Chlaf A ym mis Mawrth a mis Ebrill 2022 ar ôl iddi ddod â'r berthynas ag ef i ben.<br><br>Rhannodd Mr Blinman wybodaeth â Chlaf A a oedd yn dangos ei fod wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol a/neu wedi cysylltu â chleifion eraill.<br><br>Ni atgyfeiriodd Glaf A at unrhyw weithwyr proffesiynol neu gydweithwyr eraill i gael rhagor o gyngor neu gefnogaeth.<br><br>(Parhau ar y dudalen nesaf) |

| Osteopath | Dyddiad y penderfyniad | Ffynhonnell y pryder | Canlyniad | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Dywedodd Mr Blinman wrth Glaf A ei fod wedi gwneud cofnod anghywir ar ei chofnodion ar 27 Ionawr 2022, i'r perwyl ei fod wedi cynghori y dylent gadw peth pellter rhyngddynt oherwydd ei theimladau o ymlyniad ac y byddai'n ei hatgyfeirio at rywun arall.<br><br>Mewn perthynas â gweithredoedd Mr Blinman:<br><br>• nid oeddent wedi'u cyfiawnhau'n glinigol<br>• torrodd ffiniau proffesiynol a rhywiol<br>• roedd ysgogiad rhywiol iddynt<br>• dangosodd ddiffyg gonestrwydd |

## Gwrandawiadau Adolygu

| Osteopath | Dyddiad yr adolygiad | Y Gorchymyn yr oedd angen ei adolygu | Canlyniad yr adolygiad |
|---|---|---|---|
| Jonathan Nunn (932) | 18 Gorffennaf 2022 | Gorchymyn amodau ymarfer | Diddymwyd y gorchymyn ar gyfer yr amodau a osodwyd gan y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol ar 28 Mawrth 2022 a daeth yr achos i ben. |
| Jessica Turner (7608) | 1 Mawrth 2023 | Gorchymyn atal dros dro | Y gorchymyn atal dros dro i ddod i ben pan ddaw ei gyfnod i ben (Ebrill 2023). |

Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

**Cyngor Osteopathig Cyffredinol**
Osteopathy House
176 Tower Bridge Road
Llundain SE1 3LU

020 7357 6655
info@osteopathy.org.uk
**osteopathy.org.uk**

Mae'r GOsC yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1172749)